

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Pen-y-Bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen)

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Pen-y-Bont ar Ogwr i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn erbyn hyn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Pen-y-bont ar Ogwr 7 ohonynt yn llawn, 1 ohonynt yn rhannol, a methodd â chyflawni 2.

Caiff gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr eu darparu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i adeiladu ar ei gryfderau, sef rhaglennu digwyddiadau a gweithgareddau, ac mae arolygon defnyddwyr yn adlewyrchu'n dda ar ei chefnogaeth i iechyd a lles cymunedau lleol. Mae buddsoddiad cryf mewn datblygu a hyfforddi staff wedi sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth sydd ei hangen i barhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol wedi cael eu cadw, yn dilyn ymddeoliad nifer o aelodau profiadol o'r staff. Mae hefyd yn amlwg bod y gwasanaeth yn cynllunio'n ofalus ar gyfer dyrannu'r adnoddau sydd ar gael, ac yn ymgynghori â chymunedau i sicrhau bod datblygiadau'n diwallu eu hanghenion.

- Mae pob man gwasanaeth yn darparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol ac iechyd a lles. Mae arolygon o ddefnyddwyr yn dangos graddau llawer gwell ar gyfer y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r meysydd hyn, ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.
- Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol yn parhau i wella, ond mae'r perfformiad yn dal islaw'r lefel ganolrifol i Gymru.
- Mae'r niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau a drefnir gan y llyfrgell bellach wedi cyrraedd y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth ond un yng Nghymru, gan adlewyrchu'r ffocws parhaus ar y gwasanaethau a gynigir yn y maes hwn. Gellir hefyd weld effaith gadarnhaol rhaglenni mewn meysydd megis Sialens Darllen yr Haf a Sialens Darllen y Gaeaf yn y cynnydd yn nifer y llyfrau i blant a fenthycir.
- Er bod y ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi lleihau ers 2017/18, mae'r gwasanaeth wedi cynnal arolwg o ddefnyddwyr yn ddiweddar ar y ddarpariaeth TG a bydd y canlyniadau yn llywio ei strategaeth fuddsoddi er mwyn sicrhau bod cyfleusterau'n parhau i ddiwallu anghenion y gymuned.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu ychydig yn 2018/19; er nad yw wedi cyflawni'r targed ar gyfer staff y pen o'r boblogaeth, mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran nifer y staff cymwysedig (un o chwe gwasanaeth yn unig sy'n gwneud hynny).
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng unwaith eto ac mae islaw'r lefel ganolrifol. Fodd bynnag, parheir i gynigir y nifer uchaf o oriau agor y flwyddyn yng Nghymru.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn sgil cyhoeddi ei Gynllun Llyfrgelloedd ar gyfer 2017-2022, a chyflwynodd ymateb manwl a thrylwyr iawn. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu'r gofod yn ei Lyfrgelloedd a gwasanaethau dosbarthu'r llyfrgell deithiol, gyda ffocws penodol ar sicrhau bod y ddarpariaeth TG yn addas at y diben. Mae pwyslais mawr ar drefnu rhaglenni ar gyfer llyfrgelloedd, yn benodol y cymorth i gyflwyno Sialens Darllen yr Haf, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys rhoi cymorth rheoli ar gyfer cynllun Books4U de Cymru.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	x	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwryd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	

DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	✓	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae gwasanaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal ei berfformiad yn ail flwyddyn y chweched fframwaith, heb newid sylweddol o gymharu â 2017/18.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cwblhaodd Pen-y-bont ar Ogwr ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2018; bwriedir cwblhau'r arolwg i blant ym mis Mawrth 2020.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b		60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	93%	4/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	100%	=1/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Pen-y-bont ar Ogwr bedair astudiaeth achos o'r fath, ochr yn ochr ag adborth ehangach gan ddefnyddwyr:

- Clwb Codio a Minecraft - estyn y Clybiau Codio gwreiddiol i gynnwys Minecraft a gweithgareddau creadigol ehangach, gan alluogi aelodau i fagu hyder a datblygu sgiliau newydd. Mae'r amrywiaeth newydd o weithgareddau a gynigir wedi helpu un plentyn sydd ar y sbectrwm awtistig i gymdeithasu a rhoi cynnig ar bethau newydd.
- Cynhwysiant cymdeithasol - helpu unigolyn i wynebu problemau ynysu cymdeithasol, diweithdra ac iselder. Mae mynediad bob dydd i'w llyfrgell leol, sy'n cynnig oriau agor estynedig (9am – 10pm), yn cynnig amgylchedd cynnes, diogel a chefnogol iddo, lle y gall gael cyngor a defnyddio adnoddau sy'n gwella ei lesiant.

- Darganfod Digidol – sesiynau galw heibio digidol wythnosol a chymorth gan staff y llyfrgell yn galluogi newydd-ddyfodiad i'r ardal ddatblygu ei CV a dysgu'r sgiliau ac ennyn yr hyder i wneud cais am swyddi heb gymorth.
- Dysgu yn y Llyfrgell – effaith yr amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a gweithgareddau a gynigir yn y llyfrgell. Mae mynd i'r gweithgareddau hyn a'u cefnogi wedi dod yn rhan allweddol o fywyd un unigolyn ymddeoledig, gan ei helpu i gwrdd â phobl newydd a datblygu sgiliau newydd.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Pen-y-Bont ar Ogwr ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 5]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	84%	5/15	24%	82%	96%	23%
c) iechyd a lles	87%	=3/15	33%	62%	94%	34%
d) lle diogel a chroesawgar	99%	=2/15	90%	97%	100%	97%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid					[Fframwaith 5]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b		81%	91%	98%	91%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b		93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b		65%	91%	95%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	dd/b		93%	97%	99%	97%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b		8.5	9.3	9.5	9.0
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	25	15/22	13	30	208	22
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	85	20/22	15	199	433	75
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth	549	2/22	91	295	689	520
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell <sup>1</sup>						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	3,637	14/22	2,596	3,969	7,170*	2,909
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	714	13/22	345	885	2,205	490
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	193	4/22	58	150	251	177
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth <sup>2</sup>	567	12/22	95	602	1,424	736
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth <sup>3</sup>	8	16/22	5	10	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	19%	18/22	14%	25%	63%	22%

DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	22	=16/21	3	30	214	18
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	783	17/21	90	1,477	9,806	1,018
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£9,715	17/22	£7,181	£12,145	£19,449	£10,014
b) % ar staff	69%	8/22	47%	62%	78%	71%
% ar adnoddau gwybodaeth	20%	2/22	8%	13%	21%	16%
% ar offer ac adeiladau	2%	20/22	0.4%	4%	25%	4%
% ar gostau gweithredol eraill	9%	17/22	0.3%	16%	37%	9%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£486	11/22	£0	£467	£8,829	£126
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£1.89	9/22	£1.18	£1.82	£2.52	£2.29
DA 16 – Oriau agor <sup>4</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

<sup>1</sup> rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân  
<sup>2</sup> fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo  
<sup>3</sup> fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl<sup>4</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

#### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cwblhaodd Pen-y-bont ar Ogwr ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ar gyfer DA 1 ym mis Tachwedd 2018 gyda graddau llawer gwell ar gyfer y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cefnogi datblygu sgiliau, iechyd a lles ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Bwriedir cynnal arolygon o foddhad cwsmeriaid gyda chyfleusterau ac adnoddau llyfrgelloedd ym mis Gorffennaf 2019, a chynnal arolwg i blant ym mis Mawrth 2020. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles. Mae'r niferoedd sy'n mynychu'r hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol a ddarperir wedi parhau i wella, ond mae'r perfformiad cyffredinol islaw'r lefel ganolrifol yng Nghymru.

#### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau a gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar ei raglenni o weithgareddau a digwyddiadau, gyda'r niferoedd sy'n mynychu yn cynyddu eto yn 2018/19, ac mae'r perfformiad cyffredinol bellach wedi cyrraedd y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth ond un yng Nghymru. Cynyddodd ymweliadau ffisegol a rhith-ymweliadau yn 2018/19, a hefyd nifer y benthycwyr gweithredol. Mae aelodaeth Llyfrgell wedi gostwng ar ôl ymarfer i ddileu hen gofnodion, ac mae nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir hefyd wedi parhau i leihau. Fodd bynnag, gellir gweld effaith gadarnhaol rhaglenni llyfrgelloedd sy'n seiliedig ar Sialens Darllen yr Haf a

gweithgareddau cysylltiedig yn y lefel uwch o lyfrau i blant a fenthycir, sydd bellach wedi cyrraedd y lefel ganolrifol. Bu cynnydd cadarn yn y defnydd o e-adnoddau hefyd.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)<sup>i</sup>**

Cafodd y gyllideb ar gyfer deunyddiau ei diogelu yn 2018/19, gyda chynnydd yn y gwariant y pen o'r boblogaeth, ond mae'r ffigur ar gyfer cyfanswm yr eitemau a gaffaelwyd wedi parhau i ostwng, ac ni chyflawnwyd y naill darged na'r llall. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod unrhyw newidiadau i'w strategaeth gaffael wedi'u cefnogi gan ddata o'r System Rheoli Llyfrgelloedd ac adborth defnyddwyr, a bod hyder bod y stoc yn diwallu anghenion y gymuned. Mae buddsoddiad cymesur mewn deunydd Cymraeg wedi gostwng ychydig, ac erys islaw lefel y targed. Mae nifer y cyfrifiaduron personol a ddarperir wedi lleihau hefyd, ynghyd â'r defnydd a wneir ohonynt; mae'r gwasanaeth wedi cynnal arolwg o ddefnyddwyr yn ddiweddar ar y ddarpariaeth TG a bydd y canlyniadau yn llywio ei strategaeth fuddsoddi dros y flwyddyn i ddod. Mae'r perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau yn parhau i wella, gyda'r ddau darged o ran hyn wedi'u cyflawni.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)**

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu ychydig yn 2018/19; er nad yw'r targed ar gyfer staff y pen o'r boblogaeth wedi'i gyflawni, mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r gofynion o ran nifer y staff cymwysedig (un o chwe gwasanaeth yn unig sy'n gwneud hynny). Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i fuddsoddi cryn dipyn yn hyfforddiant a datblygiad staff, gan ymateb i'r angen i uwchsgilio staff newydd wrth i nifer o aelodau'r tîm gyrraedd oedran ymddeol. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu unwaith eto, ond mae nifer yr oriau a gyfrannwyd wedi lleihau eleni, gyda chyfanswm o 22 o wirfoddolwyr yn rhoi tua 35 awr yr un i'r gwasanaeth ar gyfartaledd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig ers 2017/18, gyda gwariant y pen o'r boblogaeth yn dal yn is na'r lefel ganolrifol. Fodd bynnag, mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi aros ar yr un lefel, sef y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth ar gyfartaledd o hyd yng Nghymru. Ni chofnodwyd unrhyw oriau agor heb staff ac nid oedd y llyfrgell deithiol wedi colli unrhyw arosfannau, ac roedd unrhyw achosion o gau'r gwasanaeth heb gynllunio hynny ond mewn ymateb i dywydd garw.

## **4 Cyd-destun strategol**

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nodir bod diben a nodau'r Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r nodau a amlinellir mewn sawl un o strategaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â chymunedau lleol er mwyn sicrhau bod datblygiad yn ystyried anghenion hirdymor wedi'i nodi hefyd. Rhoddir enghreifftiau penodol o'r ffordd y mae blaenoriaethau'r gwasanaeth yn gyson â pholisïau strategol ehangach, yn enwedig o ran hyrwyddo llythrennedd, yr agenda sgiliau digidol, a llesiant.

## **5 Cyfeiriad i'r dyfodol**

Yn yr adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn y flwyddyn ganlynol, nodir bod y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth wedi'i hamlinellu yn y Cynllun Llyfrgelloedd (2017-22) sydd wedi'i gyhoeddi erbyn hyn.

Mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod wedi'u nodi, yn benodol, datblygu'r gwasanaeth llyfrgell deithiol ac ymestyn yr hyn a gynigir ganddo i gynnwys mwy o bobl sy'n gaeth i'r tŷ. Nodir y paratodau i lyfrgell Maesteg symud i mewn i ailddatblygiad Neuadd y Dref, gyda ffocws eleni ar waith cynllunio manwl ar gyfer diwyg a chymeriad y lle newydd. Mae'r penderfyniad i ddileu dirwyon o 2019/20 hefyd wedi'i wneud; caiff effaith y datblygiad hwn ei gweld yn natganiad y flwyddyn nesaf.

## 6 Casgliad

Caiff gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr eu darparu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ran yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i adeiladu ar ei gryfderau, sef rhaglennu digwyddiadau a gweithgareddau, ac mae arolygon defnyddwyr yn adlewyrchu'n dda ar ei chefnogaeth i iechyd a lles cymunedau lleol. Mae buddsoddiad cryf mewn datblygu a hyfforddi staff wedi sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth sydd ei hangen i barhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol wedi cael eu cadw, yn dilyn ymddeoliad nifer o aelodau profiadol o'r staff. Mae hefyd yn amlwg bod y gwasanaeth yn cynllunio'n ofalus ar gyfer dyrannu'r adnoddau sydd ar gael, ac yn ymgynghori â chymunedau i sicrhau bod datblygiadau'n diwallu eu hanghenion.

---

<sup>i</sup>Mae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.